

Annwyl riant/gofalwr.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybodaeth ichi am digwyddiadau allweddol ac i roi dyddiadau pwysig i chi wrth i ni symud tuag at y Nadolig.

Presenoldeb.

Cofiwch, os oes rhesymau pam fod eich plentyn yn colli ysgol yna rhowch wybod i'r ysgol. Targed yr ysgol yw i ddychwelyd i'n lefel presenoldeb cyn-bandemig o 95%. Mae ein presenoldeb presennol ychydig dros 91% gyda llawer o absenoldebau achos gwyliau yn ystod y tymor ac absenoldebau nad ydym wedi cael gwybod amdanynt. Mae cydberthynas uniongyrchol a phroffedig rhwng presenoldeb ysgol a deilliannau dysgu, gyda disgyblion y mae eu presenoldeb yn disgyn o dan 95% yn aml yn perfformio'n waeth na'r disgwyl. Cofiwch y gall presenoldeb o 90% swnio'n dda iawn, ond mewn gwirionedd mae'n cyfateb i un absenoldeb bob 10 diwrnod.

Nosweithiau Ymgynghori Rhieni (nosweithiau cynnydd).

Edrychwn ymlaen at groesawu rhieni a gofalwyr Blwyddyn 7 i'ch noson ymgynghori Rhieni gyntaf a gynhelir yn yr ysgol ar ddydd Mercher 30 Tachwedd o 3:30pm tan 6:00pm. Byddwch wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r noson hon ond cysylltwch â'r ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau.

Cynhelir noson Ymgynghori â Rhieni Blwyddyn 9 ddydd Mercher 7ed o Rhagfyr. Bydd hwn yn ddigwyddiad rhithiol a gynhelir dros 'school-cloud'. Unwaith eto, bydd gwybodaeth yn cael ei hanfor am y broses hon.

Proses Opsiynau Blwyddyn 9.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ddisgyblion Blwyddyn 9 wrth iddynt ddechrau ar y broses o ddewis opsiynau pwnc ar gyfer TGAU. Bydd swm sylweddol o wybodaeth a chynghor yn cael eu rhannu gyda blwyddyn 9 a'u rhieni/gofalwyr dros yr wythnosau nesaf, gan ddiweddu gyda noson opsiynau Blwyddyn 9 ar ddydd Mercher 15fed Chwefror. Bydd hwn yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb lle byddwch yn gallu gofyn cwestiynau yn uniongyrchol i athrawon pwnc.

Arholiadau.

Da iawn i Flwyddyn 11 sydd newydd gwblhau eu ffug arholiadau, a dymuniadau gorau i flwyddyn 8 sydd yn dechrau eu harholiadau yr wythnos hon. Bydd y ddau grŵp blwyddyn wedi cael cynghor ar sut i baratoi ar gyfer pob un o'r arholiadau. Cofiwch gefnogi eich plentyn gyda'i baratoadau. Bydd Blwyddyn 9 yn dechrau eu harholiadau ar y 12ed o Ionawr gyda chanlyniadau'r rhain yn helpu i lywio eu penderfyniadau wrth ddewis opsiynau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Cynhyrchiad Ysgol.

Mae cynhyrchiad yr ysgol o 'The Little Shop of Horrors' yn dod yn ei flaen yn dda gyda'r cast a'r criw yn ymarfer yn galed. Mae perfformiadau ar y 13eg, 14eg a 15fed o Ragfyr am 7:00pm. Defnyddiwch y cod QR isod i archebu eich lle. Gallwch hefyd gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol drwy anfon e-bost at wendy.davies@ysgolbrogwaun.com i archebu'ch tocynnau.



Cyfeiriad/Address: Heol Dyfed, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9DT
Rhif ffôn/Tel: 01348 872268 Ffacs/Fax: 01348 872716
E-bost/E-mail: office@ysgolbrogwaun.com



Cinio Nadolig.

Bydd staff y ffreutur yn paratoi Cinio Nadolig ar ddydd Iau 15ed o Rhagfyr gyda dewis llysieuol ar gael. Nid oes tâl ychwanegol a bydd disgyblion sy'n cael prydau bwyd am ddim yn gallu derbyn eu cinio fel arfer.

Ap Spond.

Os yw eich plentyn/plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol ac yn cynrychioli'r ysgol mewn chwaraeon fel pêl-rwyd, hoci, rygbi a phêl-droed, gwnewch yn siŵr eich bod yn lawrlwytho a chofrestru ar gyfer yr ap hwn. Mae'r ap yn darparu gwybodaeth amser real am osodiadau a hyfforddiant, gan gynnwys canslo ac ail-drefnu. Cysylltwch â Sioned.Page-Jones@ysgolbrogwaun.com am ragor o wybodaeth.

Dyddiadau Allweddol:

Dydd Mercher 30 Tachwedd – Noson ymgynghori rhieni Blwyddyn 7 (yn yr ysgol).

Dydd Mercher 7 Rhagfyr – Noson ymgynghori rhieni Blwyddyn 9 (rhithiol gan ddefnyddio school-cloud).

Dydd Mawrth 13eg i Dydd Iau 15fed Rhagfyr – Cynhyrchiad ysgol.

Dydd Iau 15 Rhagfyr – Cinio Nadolig.

Dydd Iau 22 Rhagfyr – Diwrnod olaf y tymor.

Dydd Llun Ionawr 9fed – diwrnod HMS (dim ysgol i ddisgyblion).

Dydd Mawrth Ionawr 10fed – Pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Paul Edwards